# CASGLIAD

O'R

# GALWAD

I'R

# ANNYCHWELEDIG.

---

ESAIA xlv. 22.

*Trowch eich wynebau attaf fi, holl gyrrau'r ddaear, fel y'ch achuber:—canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall.*

Ezeciel xviii. 21, 22.

*O yr annuwiol a ddychwel oddi wrth ei holl bechodau y rhai a wnaeth,—efe gan fyw a fydd byw.—Ni chofir iddo yr holl gamweddau a wnaeth.—*

---

ARGRAPHWYD YN Y FLWYDDYN,
M,DCC,LXXVII.

☞ *Nid yw'r Llyfran hwn ar werth, ond rhodd Ewyllysiwr da i Grefydd i'w gyd-wladwyr.*

# Galwad i'r annychweledig.

Ezeciel. xxxiii. 11.

*Dywed wrthynt, Fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, nid ymhoffaf ym marwolaeth yr annuwiol, ond troi o'r annuwiol oddi wrth ei ffordd a byw: dychwelwch, dychwelwch oddi wrth eich ffyrdd drygionus; canys, tŷ* ISRAEL, *paham y byddwch feirw?*

SWM y Testyn sy'n sefyll yn yr ystyriaethau hyn sy'n canlyn.

Athr. 1. Cyfraith anghyfnewidiol Duw yw, fod yn rhaid i'r annuwiol droi neu farw.

Athr. 2. Addewid Duw yw, cael o'r annuwiol fyw, os hwy a droant.

Athr. 3. Mae Duw yn ymhoffi yn nhroedigaeth ac Iechydwriaeth dynion, ac nid yn eu marwolaeth a'u damnedigaeth. Gwell oedd gantho ef droi o honynt a byw, na myned rhagddynt a marw.

Athr. 4. Hwn yw'r siccraf wir, yr hwn o herwydd na fynnai Duw i ddynion mo'i ammau, a gadarnhaodd efe iddynt mewn môdd difrif cyhoeddus trwy ei Lŵ.

Athr. 5. Mae'r Arglwydd yn dyblu ei orchymynion a'i annogaethau i'r annuwiol i ddychwelyd.

Athr. 6 Mae'r Arglwydd yn ymostwng i ymresymmu â hwynt, ac yn gofyn iddynt paham y mynnent farw?

Athr. 7. Os yr annuwiol gwedi hyn i gyd ni ddychwelant, nid o ran Duw y derfydd am danynt, ond o'i rhan eu hunain: eu hystyfnigrwydd eu hunain yw'r achos o'i damnedigaeth; marw gan hynny y maent, oblegyd hwy a fynnant farw.

Athr. 1. Cyfraith anghyfnewidiol Duw yw, fod yn rhaid i ddynion annuwiol droi neu farw. Os coeliwch Dduw, coeliwch hyn; nid oes ond un o'r

ddwy

ddwy ffordd hyn i bob dyn annuwiol, naill ai troedigaeth ai damnedigaeth. Mi a wn mai anhawdd yw peri i'r annuwiol goelio 'r gwirionedd hyn. Nid rhyfedd os cweryla yr euog â'r gyfraith. Ychydig ddynion sydd barod i goelio yr hyn ni fynnent fod yn wir: a llai a fynnent i hynny fod yn wir er y maent yn deall ei fod yn eu herbyn. Eithr os bydd neb mor ddall ac anturio cwestiyno naill ai gwirionedd neu gyfiawnder y gyfraith hon o'r eiddo Duw, mi a roddaf i chwi ar fyrr y faeth eglurdeb o'r ddau, yr hwn, ac a dybygwn, a ddylai fodloni dyn rhesymmol. Ac yn gyntaf, os ydych yn ammau a ydyw hyn yn air Duw ai nad yw; heb law cant o leoedd eraill, fe a ellir eich bodloni â'r ychydig rai hyn. *Mat.* xviii. 3. *Yn wir y dywedaf i chwi, oddieithr eich troi chwi a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd.* Hefyd gwêl *Joan* iii. 3. 2 *Cor.* v. 17. *Col.* iii. 9, 10. *Heb.* xii. 14. *Rhuf.* vii. 8, 9. *Gal.* vi. 15. 1 *Ped.* i. 3. 1 *Ped.* ii. 12. *Psal.* ix. 17 *Psal.* xi. 5. Megis nad rhaid imi aros i agoryd y lleoedd hyn, y rhai ydynt mor eglur, felly yr wyf fi yn tybied nad rhaid i'm chwanegu dim mwy o'r lliaws hynny fydd yn adrodd y cyffelyb: os 'wyt ti ddyn, a'r fy'n credu gair Duw, dymma yn barod ddigon i'th fodloni di, fod yn rhaid i'r annuwiol ddychwelyd, neu gael eu condemnio.

Ond os nad ydych yn credu hyn, moefwch glywed pa resfwm fydd gennych paham na chredwch y gair hwn o eiddo Duw, yr hwn fydd yn dywedyd ini, fod 'n rhaid i'r annuwiol droi neu gael eu condemnio: mi a wn eich rhesfwm, mai o herwydd eich bod yn barnu fod yn anhebygol i Dduw fod mor annhrugarog: Tybied yr ydych mai creulonder yw damnio dynion yn dragywydd am beth cyn lleied a buchedd bechadurus. A hyn fydd yn ein harwain at yr ail beth, yr hyn yw cyfiawnhau uniawnder Duw yn ei ddeddfau a'i farnau.

Ac yn 1. Yr wyf fi yn tybied [illegible]

yw yn ddigon cyfaddas i enaid anfarwol, gael ei reoli trwy gyfreithiau a fo yn addaw gwobr anfarwol, ac yn bygwth cosbedigaeth annherfynol. Oni bai hynny ni byddei y gyfraith gyfaddas i naturiaeth dyn, yr hwn ni chyflawn reolir trwy foddion ddim is na gobaith neu arswyd pethau tragywyddol.

2. Yr 'wyf yn tybied yr addefwch nad yw yr addewid o ddidrangc a diamgyffred ogoniant yn anghyfaddasol i ddoethineb Duw, na chyflwr dyn; a phaham yntau na byddech o'r unrhyw dŷb am fygythiad o ddidrangc ac anrhaethadwy drueni?

3. Pan gaffoch chwi yngair Duw, mai felly y mae, ac felly y bydd, a ydych chwi yn tybied eich hunain yn addas i ddywedyd yn erbyn y gair hwn? A elwch chwi eich gwneuthurwr at y barr, a holi ei air ef ar gyhuddiad o ffalster? A eisteddwch chwi arno i'w farnu wrth ddeddf eich dych'mygion? A ydych chwi yn ddoethach, ac yn well, ac yn gyfiawnach nag ef? Ai rhaid i'r Hollalluog iefell with frawdle prŷf? Oh ryfig aruthrol llwch dibwyll! A gyhudda pob gwadd, a thywarchen, a thommen yr haul o dywyllwch, a chymmeryd arno i lewyrchu'r byd? Pa le yr oeddych chwi pan wnaeth yr Hollalluog y Cyfreithiau hyn, na alwasai efe arnoch chwi i fod o'i gyngor?

4. Os yw Pechod y fath ddrwg a'r sy'n gofyn marwolaeth Crist yn Iawn trosto, nid rhyfedd ei fod yn haeddu trueni trag'wyddol.

5. Ac os haeddodd pechod y Cythreuliaid boenedigaeth annherfynol, paham yntau na's haeddai pechod Dyn?

6. Ac yn fy nhŷb, chwi a ddylech ddeall, nad oes fodd i'r goreu o ddynion, llai o lawer i'r annuwiol, fod yn gymmwys farnwyr ar haeddedigaeth pechod. Och! Yr ydym ni oll yn ddeillion ac yn bartiol! Ni ellwch chwi fyth gyflawn adnabod haeddiant pechod, nes i chwi gyflawn adnabod Drwg y pechod; ac ni ellwch chwi fyth gyflawn adnabod drwg y pechod, nes i chwi gyflawn adna-

bod

bod; yn 1. Godidawgrwydd yr enaid yr hwn a anffurfiodd ef. 2. A godidawgrwydd y sancteiddrwydd yr hwn a ddileuodd ef. 3. Ac achos a godidawgrwydd y gyfraith yr hon y mae yn ei throsfeddu. 4. A godidawgrwydd y gogoniant y mae yn ei ddirmygu. 5. A godidawgrwydd a sywydd rheswm yr hwn y mae yn ei sathru. 6. Na chwaneganes i chwi adnabod anfeidrol ardderchawgrwydd Hollalluogrwydd, a sancteiddrwydd y Duw hwnnw yn erbyn yr hwn y gwneir ef. Pan adwaenoch chwi y rhai'n oll yn gyflawn, y cewch chwi gyflawn adnabod haeddiant pechod. 7. A ellwch chwi, feddwl fod enaid aflan yn gymmwys i'r nefoedd? Och fi, ni fedrant garu Duw ymma, na gwneuthur iddo un gwasanaeth a'r a allo ef ei dderbyn. Maent yngwrthwyneb i Dduw; maent yn ffieiddio yr hyn y mae efe yn ei garu fwyaf, ac caru yr hyn y mae efe yn ei gasfau. Nid ydynt yn gymmwys i'r amherffaith gymmundeb hwnnw ac ef yr hwn y mae ei Seintiau ef ymma yn gyfrannogion o hono. Pa fodd gan hynny y gallant hwy fyw yn y perffaith gariad hwnnw o'r eiddo ef, ac yn y cyflawn hyfrydwch a'r cymmundeb ag ef, yr hyn yw gwynfyd y nêf?

# Defnydd.

Attolwg i chwi ynawr, hawb oll ar ydych yn yn caru eich eneidiau, yn lle ymgynhennu â Duw, ac â'i air, ymostwng iddo ar frŷs, a'i arfer, er eich daioni. Chwi oll a'r sydd etto heb droi, cymmerwch hyn am ddilys wirionedd Duw. Rhaid i chwi cyn pen nemmawr ddychwelyd neu gael eich damnio. Nid oes un ffordd arall ond *troi* neu *farw*. Pan ddywedodd Duw hyn, yr hwn ni ddichon ddywedyd celwydd wrthych, pan glywoch hyn gan wneuthurwr a Barnwr y byd, mae'n amser i'r rhai sydd ganthynt glustiau i wrando. Erbyn hyn chwi a ellwch weled pa beth sydd gennych i ymddiried yntho. Nid ydych ond meirwon a damnedig oddi-

eithr i chwi ddychwelyd. Pe dywedwn i chwi amgenach, mi a'ch twyllwn â chelwydd. Pe cuddiwn hyn oddiwrthych, mi a'ch anhreithiwn chwi, ac a fyddwn euog o'ch gwaed, fel y mae yr adnodau o flaen f; nhestyn yn sicrhau. Ad: 8. *Pan ddywedwyf wrth yr annuwiol, ti annuwiol gan farw a fyddi farw; oni leferi di i rybyddio yr annuwiol o'i ffordd; yr annuwiol hwn a fydd marw yn ei anwiredd; ond ar dy law di y gofynnaf ei waed ef.* Chwi a welwch gan hynny, er bod hon yn athrawiaeth arw anhyfryd, mae hi yn gyfryw ac sydd raid ini ei phregethu, ac i chwithau ei gwrando. Esmwythach yw clywed sôn am uffern, na'i dioddef. Oni bai fod eich angenrheidiau yn ei ofyn, nid ysbelwem ni mo'ch clustiau tyner â gwirioneddau a dybir mor eirwon a llymdost. Ni byddai uffern cyn llawned pettau bobl ond ewyllysgar i adnabod eu cyflwr, ac i glywed oddiwrtho, ac i feddwl am dano. Yr achos paham y mae cyn lleied yn ei gochelyd yw, oblegyd nad ydynt yn ymdrechu am fyned trwy borth cyfyng *Troedigaeth*, ac am drammwy ffordd gûl *Sancteiddrwydd* tra caffont amser: ac nid ydynt yn ymdrechu, oblegyd na ddeffroesant i fywiol deimlad o'r perygl y maent yntho. Ac ni ddeffroesant, oblegyd fod yn gâs ganthyn glywed oddiwrtho, a meddwl am dano: a hynny sydd mewn rhan o herwydd ynfyd dynnerwch, a hunan serch cnawdol: ac mewn rhan o herwydd nad ydynt yn llwyr gredu y gair sydd yn ei fygwth. Pebaech chwi ond hollawl gredu y gwirionedd hwn, mi a debygwn y dylei ei bwys ef eich annog i'w gofio; ac fe a'ch dilynai ac ni adawai i chwi lonydd, nes i chwi ddychwelyd. Pe clywech hyn ond un waith trwy leferydd Angel, *Rhaid it fod yn ddychweledig neu yn ddamnedig: Troi neu farw:* oni byddai iddo lynu yn eich meddwl, ac ymdrechu â chwi nos a dydd, fel y cofiech ef wrth bechu, ac y cofiech ef wrth eich gwaith, fel ped fai ei lais ef yn oestadol yn eich clustiau, *Trowch neu drengwch.* O pa beth gan hynny yw'r achos na rwygir calonnau

pechaduriaid

pechaduriaid â'r cyfryw wirionedd pwysfawr! Fe dybygai ddyn bellach y dylai pob enaid a'r ni thródd, a'r sydd yn clywed y geiriau hyn ferwino hyd at y galon, a meddwl rhyngthynt â nhwy ei hunain; *Hwn yw fy nghyflwr i fy hunan*; ac na byddent byth lonydd nes eu cael eu hunain gwedi troi. Coeliwch, hawyr, ni pheru 'r fwrth dymmer diofal ymma chwaith yn hîr. Troedigaeth a Damnedigaeth ydynt ill dau bethau deffroûs. Ac un o honynt a bair i chwi ymwrando ac ef cyn pen nemmawr. Mysi a fedraf ddywedyd i chwi ymlaenllaw cyn sicred a phettawn yn ei ganfod â'm llygaid, y dwg naill ai grâs ai uffern y pethau hyn ar fyrder at y byw, ac a wnânt i chwi ddywedyd, *Pa beth a wneuthum? Pa helynt ffol annuwiol a gymmerais?* Trahaus falch a fyfrdàn gyflwr pechaduriaid ni pheru ond ychydig. *Rhaid troi neu drengu.*

Ha wyr, a ydych chwi yn credu hyn oll, ai nid ydych? Diau na's gellwch ddywedyd nad ydych; canys y mae ef tros ben amheuath. Y rhai hyn nid ydynt ymryfonau, lle mae'r naill ŵr duwiol dysgedig o'r naill feddwl, a'r llall o un arall; lle mae'r naill blaid yn dywedyd hyn, a'r llall yn dywedyd hyn accw: Pob fect yn ein plith ar a haeddei ei galw yn Grist'nogion, ydynt oll yn cyttuno yn yr hyn a ddywedais: ac oni choeliwch chwi Dduw'r gwirionedd, a hynny mewn peth y mae pob fect a phlaid yn ei goelio ef, yr ydych yn llwyr annefgufodol.

Eithr os ydych yn coelio hyn, pa fodd y digwydd i chwi fod cyn llonydded mewn cyflwr annychweledig? A wyddoch chwi eich bod gwedi dychwelyd? A fedrwch chwi hefyd gael y newidiad rhyfeddol hwn ar eich eneidiau? A ail-anwyd chwi fel hyn, a'ch gwneuthur o newydd? Onid yw y pethau hyn yn rhyfedd gan fagad o honoch? Ac yn gyfryw na's gwybuoch oddiwrthynt ar eich eneidiau? Oni fedrwch fynegi dydd neu wythnos eich newidiad, na'r bregeth a'ch trôdd chwi, etto a ydych chwi yn cael fod y gwaith wedi ei wneuthur? Eich

celaneddau

celaneddau a orweddant ar fyrder yn y llwch, angylion neu gythreuliaid yn ebrwydd a gymmerant afel ar eich eneidiau, a phob mab a merch o honoch chwi oll, a fydd ymhlith cwmpeini arall ar fyrder, ac mewn cyflwr amgenach nag yr ydych yr awr hon yntho: ni thrigwch chwi yn y tai yna ond ychydig yn hwy: Ni weithiwch chwi yn eich sioppau a'ch meufydd ond ychydig yn hwy: nid eisteddwch yn yr ystafelloedd yna, ac ni phresfwyliwch ar y ddaear hon ond ychydig yn hwy. Ni welwch â'r llygaid yna, ac ni chlywch â'r clustiau yna, ac ni leferwch â'r tafod yna ond ychydig yn hwy, tan ddydd yr adgyfodiad: O pa ryw fan y byddwch chwi yntho ar fyrder o lawenydd neu boendod! O pa olwg a welwch chwi ar fyrder yn y nefoedd neu yn uffern! O pa feddyliau a lenwa eich calonnau ar fyrder â difyrrwch neu erwindeb anrhaethadwy! Oh pa waith y gosodir chwi arno ar fyrder, sef naill ai i foliannu 'r Arglwydd gyda Seintiau ac Angylion, neu i groch leisio allan mewn tan annioddadwy gyda chythreuliaid! Ac a ddylai hyn oll gael ei anghofio? A hyn oll a fydd anherfynol, ac a sélir i fynu trwy ddedryf drag'wyddol. *Tragywyddoldeb Tragywyddoldeb*, a fydd mesur eich llawenydd neu'ch tristwch; A ellir anghofio hyn? Ac y mae hyn, hawyr frodyr, ei gyd oll yn wir; *y siccraf wirionedd yw*: Darfyddo i chwi fyned i fynu ac i wared ychydig hwy, darfyddo i chwi gysgu a deffroi ychydig mynychach, chwi a fyddwch meirw, a chwedi passio, á chael y cwbl yn wir yr wyf fi yn ei fynegi i chwi yr awr hon: ac er hynny a fedrwch chwi ynawr ei anghofio yn gymmaint? Chwi a gewch gofio y pryd hynny glywed o honoch y pethau hyn, ac a gewch ddeall eu bod hwynt yn fwy matterion filoedd o weithiau nag y gallaf fi na chwithau ymma moi ddirnad. Ac am hynny yr wyf fi yn attolwg ar i chwi fy esgusodi, os wyf fi hanner cyn daered arnoch ynghylch y pethau hyn, a phed fawn yn eu gweled. Os gorfydd arnaf farw y foru, a gallu

o honof ddyfod drachefn o fyd arall, a mynegi i chwi yr hyn a welswn, oni byddech chwi ewyllysgar i'm gwrando, ac oni chredech chwi, a gwneuthur cyfrif o'r hyn a fynegwn i wrthych? Pe gallwn i bregethu un bregeth i chwi yn ôl fy marw, a gweled yr hyn a wneir yn y byd a ddaw, oni fynnech imi ddywedyd y pûr wirionedd, ac oni ymdyrrech chwi i'm gwrando? Oni osodech chwi hynny at eich calon? Ond ni ddichon hyn fod: Mae gan Dduw ei ffordd bwyntiedig i'ch dysgu chwi trwy 'r scrythyrau a gweinidogion. Dymunaf arnoch i ddechreu chwilio eich calonnau yn ddifrifol, a dywedyd wrthych eich hunain, *ai felly mewn difri y mae? Ai rhaid i mi drei neu farw? Ai rhaid imi fod yn ddychweledig neu 'n ddamnedig? Mae yn llawn bryd imi gan hynny edrych yn fy'nghylch, cyn y b'o yn rhy hwyr. Oh paham nad edrychais am hyn hyd yn hyn? Paham y darfu imi ar antur ffwdanu, a myned yn swrthlyd tros gymmaint o orchwyl? A oeddwn i yn effro, neu yn fy nghliôf? O'r bendigedig Dduw! Pa drugaredd yw na thorraist fi ymaith oddiar y ddaear, cyn cael o honof ddim gobaith sicr o'r bywyd trag'wyddol? Gedwch iddo, na atto Duw ini esgeuluso 'r gwaith ymma ddim hwy. Pa gyflwr y mae fy enaid i ynddo? A ddychwelais i, ai nad do? A fu erioed y cyfryw gyfnewid neu waith ar fy enaid? A oleuwyd fi trwy air ac yspryd yr Arglwydd, i ganfod atgasrwydd pechod, eisiau am Iachawdwr, cariad Crist, a godidawgrwydd Duw a'i ogoniant. A ddrylliwyd ac a ddarostyngwyd fy nghalon o'm mewn am fy muchedd or blaen? A roesewais i yn ddiolchgar fy Iachawdwr a'm Harglwydd, yr hwn ai cynnygiodd ei hun yngbyd â phardwn a bywyd i'm henaid? A wyf fi yn casau fy muchedd bechadurus gynt, a gweddillion pob pechod ar sydd ynof? A wyf fi yn ffoi rhagddynt, megis fy ngelynion marwol? a wyf fi yn rhoddi fy hun i fynu i fuchedd o sancteiddrwydd ac ufudd-dod i Dduw? A ydwyf fi yn ei charu ac yn ymhyfrydu ynthi? A allaf fi ddywedyd mewn gwirionedd fy mod yn farw i'r byd a'r hunan gnawdol, am bod*

*yn*

*yn byw i Dduw a'r gogoniant â addawodd ef? A [illegible] gennyf fwy prîs a phwrpas am y nefoedd, na'r ddaear? [illegible] Duw hefyd yw'r anwylaf a'r goruchaf yn fy enaid? [illegible] oes gennyf fwriad newydd, a diben newydd, a haid n[illegible] wydd o anwydau Sanctaidd? A sefydlais i fy ngobai[illegible] a'm calon yn y nefoedd? A phan bechwyf, ai yn erb[illegible] greddfol ogwyddiad a bwriad fy nghalon y mae? Ac wyf fi yn ewyllysio cael ymwared oddiwrth fy ngwendidau[illegible] Dymma gyflwr enaid dychweledig: ac fel hyn y mae'[illegible] rhaid bod gyda myfi, ai nad ê? Mae hi yn amser i gei[illegible] datted y petrusder hwn cyn i'r Barnwr ofnadwy ei dda[illegible] tod. Nid oes mor lle i edifeirwch a throedigaeth y pry[illegible] hynny; mi a wn fod yn rhaid iddo fod naill ai'n awr[illegible] ai na byddo byth.*

Hawyr, hyn yw fy neisyfiad arnoch, ddodi o ho[illegible] noch dasg ar eich calonnau ai holi fel hyn, ne[illegible] i chwi ganfod, os bydd possibl, pa un ydych a[illegible] dychweledig ai nad ydych. Mae'r matter yn fawr[illegible] nedwch i ddiofalwch eich lluddias. Pe gwyddec[illegible] chwi eich bod oddiar y ffordd i'r nefoedd, a'ch bo[illegible] yn golledig yn dragywydd pettach yn meirw fel y[illegible] ydych; a feiddiech chwi gysgu noswaith ychwaneg[illegible] yn y cyflwr yr ydych ynddo? A feiddiech chwi fyw[illegible] ddiwrnod etto yntho ef? A fedrech chwi grechwen-nu a bod yn llawen yn y fath gyflwr? Pa beth! Ac heb wybod nad eller eich cippio i uffern mewn un awr. Diammau y parai i chwi ymadael â'ch cymdeithas a'ch helyntiau gynt, ac yr ymgyfeiriech at ffyrdd sancteiddrwydd, a chymmundeb y saint. Diammau y gyrrai hynny chwi i lefain ar Dduw am galon newydd, ac i geisio cymmorth y rhai sydd gymmwys i'ch cynghori. Er mwyn yr eneidiau hynny sydd raid iddynt droi neu feirw, yr wyf fi 'n attolwg na naccêwch mohonof, wneuthur o honoch yn orchwyl, iwch ddeall eich cyflwr eich hunain, ac adeiladu ar sail safadwy, a gwybod yma neu ac-cw, a droesoch ai nad do, ac na anturioch mo'ch eneidiau ar ddifrawch diddarbod.

Athr. 2. Addewid Duw yw, y caiff yr annuwiol

os troant, sef, os troant yn ddiffuant ac yn holl-
.
Mae'r Arglwydd yma yn cyhoedd gyfaddau mai
a'r hyn y mae efe yn ymhoffi ynddo, bod i'r
uwiol droi a byw. Mae'r nefoedd gwedi ei
euthur mor siccr i'r dychweledig, ac yw uffern
annychweledig. *Trowch a byw fyddwch*, sydd
onedd cyn siccred, a *Throwch neu meirw a fydd-*

id oedd Duw rwymedig i ddarparu ini Iachaw-
nac i agoryd ini ddrws gobaith, nag i'n galw
farhau a throi, pan oeddym ni unwaith wedi
aflu ein hunain ymaith trwy bechod. Ond
'i gwnaeth yn rhad i fawrhau ei drugaredd.
aduriaid, ni chaiff neb o honoch achos i ddywe-
fy mod i yn pregethu i chwi anobaith. Ein
*issiwn* ni sydd i gynnyg Iechydwriaeth, Iech-
iaeth ddiogel, ddifrif, ogoneddus, dragywydd-
hawdwriaeth i bob un o honoch ; i'r cardottyn
f, yn gystal ac i'r arglwydd mwyaf; i'r dihiraf
noch, sef i'r meddwon, tyngwyr, bydolwyr,
n, iê i ddirmygwyr a goganwyr ffordd sanc-
Iechawdwriaeth : fe a orchmynnir ini gan yr
ydd ein Meistr, gynnyg i chwi bardwn am
aint oll ac a basiodd, os gwnewch chwi be-
o'r diwedd ond dychwelyd a byw. Fe orch-
r ini attolygu ac ymbil arnoch am dderbyn y
g a dychwelyd ; ac i fynegu i chwi pa baratto-
naethpwyd gan Grist ; pa drugaredd sydd yn
danoch ; pa amynedd sy'n disgwyl wrthych ;
iadau o garedigrwydd sydd gan Dduw tuag
Yn siccr mae gennym ni hefyd gennadw-
igofaint ac Angau, ie a dwbl ddigofaint ac
: ond nid ein prif gennadwri yw'r un o ho-
Mae'n rhaid ini fynegi i chwi y digofaint
noch yn barod, a'r farwolaeth y ganwyd
ni, am dorri deddf gweithredoedd : eithr nid
ond dangos yr eisiau am drugaredd, a'ch
i brisio gras y Pryniawdwr. Ac nid ydym
ni

n'i yn mynegi i chwi ddim ond y gwir sydd yn rhaid i chwi ei wybod; canys pwy a gais physygwriaeth ond a wypo ei fod yn glaf? Nid yw ein gwaith ni yn dangos i chwi eich trueni, yn eich gwneuthur yn druenus; ond eich hymlid chwi allan y mae i ymgais am drugaredd. Yn Nuw y mae Trugaredd, ac y mae digonolrwydd yn yr Iawn a roes Crist, mae'r addewid yn rhad, yn gyflawn, ac yn gyffredinol. Os gofynnwch pa le mae ein *commissiwn* i i gynnyg fel hyn; ymhlith cant o leoedd o'r ysgrythur, myfi a'i dangosaf yn yr ychydig leoedd hyn. Yn gyntaf, chwi a'i gwelwch yma yn fy nhestyn a'r adnodau sy'n canlyn; ac yn y xviii. o *Ezec*: mor eglur ac y galler i adrodd. A yn 2 *Cor*. v. 17, 18, 19, 20, 21. *Gwel*. Felly *Marc*. xvi. 15, 16. A *Luc*. xxiv 46, 47. gwêl. Ac Act. v. 30, 31. Ac xiii. 38, 39. Gwêl. A rhag i chwi dybied fod Duw yn cynnyg hyn yma yn unig i'r Iuddewon, edrychwch *Gal*. vi. 15. A *Luc* xiv. 17, 23, 24. Gwêl.

Dyma lle gellwch chwi yn ddienbyd ymddiried am eich eneidiau: canys cariad Duw yw ffynnon y cynnygiad hwn, *Joan* iii. 16. A gwaed Mab Duw a'i pwrcasodd: Ffyddlondeb a gwirionedd Duw a ymrwymodd i wneuthur yr addewid yn dda: gwyrthiau a seliasant i fynu y gwirionedd o hono: Pregethwyr a anfonir trwy'r byd i'w gyhoeddi.

Diau, os mynnwch chwi goelio y byddwch gadwedig heb *Droedigaeth*, eich bod chwi yn coelio anwiredd: a phe pregethwn innau hynny i chwi, mi a bregethwn gelwydd. Nid credu i Dduw yw hyn, ond i'r cythraul ac i'ch calonnau twyllodrus eich hunain. Mae gan Dduw ei addewid o *einioes, a chan Ddiafol ei addewid o einioes.* Addewid Duw yw, *Dychwelwch a byw fyddwch.* Addewid Diafol yw, chwi a gewch fyw pa *un bynnag a wneloch ai troi ai peidio.* Ac ysywaith, mae y rhan fwyaf o'r byd yn credu'r gair hwn o eiddo'r cythraul, o flaen gair Duw. Yn yr un môdd ac y daeth ein pechod a'n trueni i'r byd. Duw a ddywedodd

wrth

wrth ein rhieni cyntaf, *os bwyttewch, chwi a fyddwch feirw*; a'r cythraul a'i gwrthettyb, gan ddywedyd, *ni byddwch feirw ddim*: A'r wraig a goeliodd y cythraul oflaen Duw. Felly y mae'r Arglwydd yr awr hon yn dywedyd, *Trowch neu meirw fyddwch*; a'r cythraul sy'n dywedyd, *Ni byddwch feirw ddim, os gwnewch gymmaint a llefain ar Dduw am drugaredd ar y diwedd, a rho'i heibio weithrediadau'r pechod, pryd nas galloch moi gweithredu ddim yn hwy.* A dymma'r gair y mae'r byd yn ei garu. Oh ysgelerder anesgorol! credu Diafol oflaen Duw.

Eithr os chwi a drowch a dyfod i ffordd trugaredd, mae trugaredd yr Arglwydd yn barod i'ch groesawi. Ymddiriedwch gan hynny yn Nuw am iechydwriaeth yn hŷf ac yn hyderus, canys efe a ymrwymodd trwy ei air ar eich cadw chwi. Mae ef yn oestadol yn barod i'ch derbyn. A llawnder y gwirionedd ymma a ymddengus etto ymhellach yn y ddwy athrawiaeth sy'n canlyn, at y rhai yr âf rhagof yn y man nesaf, cyn i'm wneuthur dim defnydd o hyn ymhellach.

Athr. 3. Mae Duw yn ymhoffi yn nhroedigaeth ac iechydwriaeth dynion, ond nid yn eu marwolaeth a'u damnedigaeth: gwell gantho droi o honynt a byw, na myned rhagddynt a meirw. Am resymmau y pwngc hwn, mi a fyddaf byrr ynthynt, o herwydd yr wyf yn tybied eich bod yn eu credu eisoes.

1. Fe eill grasusol naturiaeth Duw ar a gyhoeddir yn *Exod*: xxxiv. 6. ar xx. 6. ac yn aml mewn lleoedd eraill, eich siccrau chwi o hyn, nad yw efe yn ymhoffi yn eich marwolaeth.

2. Petsau Duw yn ymhoffi yn eich marwolaeth yn fwy nag yn eich troedigaeth a'ch bywyd, ni buasai efe cyn fynyched yn ei air yn gorchymyn i chwi droi. Mae ammodau'r efengyl yn profi'r pwngc.

3. A'i *gommissiwn* yr hwn a roddes ef i weinidogion yr efengyl, sydd yn profi hyn yn helaeth. A fuasai Duw yn gwneuthur hyn, ac yn trefnu ei ordinhadau er daioni i chwi, pe buasai efe yn ymhoffi yn eich marwolaeth?

4. Fe brofir hefyd wrth drefn ei ragluniaeth ef. Ped f'asai gwell gan Dduw eich bod yn ddamnedig nag yn ddychweledig a chadwedig, ni buasei efe yn taro ymmhlaid ei air trwy ei weithredoedd, ac yn eich denu atto ei hun trwy ei diriondeb beunyddiol, ac yn rhoddi i chwi holl drugareddau y bywyd hwn, y rhai ydynt foddion *i'ch tywys chwi i edifeirwch. Rhuf.* ii. 4. a'ch dwyn cyn fynyched tan ei wialen, i beri i chwi bwyllo. Pe buasei hoff gantho dy ddamnedigaeth, pa mor hawsed y gallasei ef dy gael yn uffern er ystalm? Fynyched y gallasei efe cyn hyn dy gippio di ymaith ynghanol dy bechodau; a rhêg neu lŵ neu gelwydd yn dy enau, yn dy anwybodaeth a'th ffalster a'th anlladrwydd? Y pryd y buost di ddiweddaf yn dy fedd-dod, neu yn gwatwor ffyrdd Duw, hawsed y gallasei ef attal dy anadl, a'th sobreiddio mewn byd arall? Och leied peth fyddei i'r Hollalluog Arglwydd reoli tafod y cablwr mwyaf halogaidd, a rhwymo dwylaw yr erlidiwr mileiniaf, neu ostegu cynddaredd y chwerwaf o'i elynion, a gwneuthur iddynt wybod nad ydynt ond pryfedach?

Pettau efe ond gŵgu arnat, ti a syrthit i'th fedd. Diau mai i edrych a ddychweli di o'r diwedd a byw, y disgwyliodd Duw cyhyd wrthyt.

5. Fe a brofir ymhellach trwy ddioddefiadau ei Fab, nad yw Duw yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol. Bwriwch i chwi ei weled ef mor brysur yn pregethu ac yn eu hiachau hwynt, fel y cewch ef yn *Marc* iii. 21. Neu cyhyd yn ymprydio, megis ym *Math.* iv. Neu ar hyd y nôs yn gweddio â'r defnynnau gwaed yn diferu oddiwrtho yn lle chwys, megis *Luc.* xxii. 44. Neu yn goddef marwolaeth felldigedig ar y groes, ac yn tywallt allan ei enaid megis aberth tros ein pechodau ni: a dybiech chwi fod y rhai hyn yn arwyddion o un yn ymhyfrydu ym marwolaeth yr annuwiol?

6. Yn olaf, os hyn oll ni foddlona mohonoch etto, cymmerwch ei air ef, yr hwn yn oreu a ŵyr

ei

ei feddwl ei hun, neu o'r hyn lleiaf coeliwch ei lŵ ef: eithr hyn sydd yn fy arwain at y *bedwaredd athrawiaeth.*

Athr. 4. Yr Arglwydd a siccrhaodd i ni trwy ei lŵ, nad yw efe yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol, ond ar iddo droi a byw; fel y gallai efe adael dyn heb esgus yn y byd i ammau y gwirionedd o hynny.

Os meiddiwch chwi ammau ei air, gobeithio na bydd i chwi ammau mo'i lŵ ef.

Meg's ac y darfu i Grist yn ddifrif ddwys dystiolaethu na ddichon y di-adgenhedledig a'r annychweledig fyned i mewn i deyrnas nefoedd, *Math.* xviii. 3. *Joan* iii. 3. Felly y tyngodd Duw nad yw efe yn ymhoffi yn eu marwolaeth hwynt, ond yn eu troedigaeth a'u bywyd. Ac megis y dywaid yr Apostol *Heb.* vi. 13, 16, 17, 18. *Oblegid na allai dyngu i neb oedd fwy, medd efe, fel mai byw fi &c. Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a f'o mwy; a llŵ er siccrwydd sydd derfyn iddynt ar bob ymryson: yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor ef, a gyfryngodd trwy lŵ: fel trwy ddau beth dianwadal, yn yr rhai yr oedd yn ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cyssur cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen; yr hwn sydd gennym ni megis angor yr Enaid, yn ddiogel ac yn siccr.*—

# Defnydd.

Yr wyf fi yn awr yn attolwg iti yr hwn wyt bechadur annychweledig ar a wyt yn clywed y geiriau hyn, ar i ti fyfyrio ychydig ar yr athrawiaethau a grybwyllwyd o'r blaen; a'th ystyried dy hun tros encyd, pwy yw yr hwn sydd yn ymhyfrydu yn dy bechod a'th ddamnedigaeth? Diammau nad Duw: efe o'i ran ei hun a dyngodd nad yw yn ymhoffi yntho. Ac mi a wn nad rhyngu-bôdd iddo ef yr ydych chwithau yn ei fwriadau wrth hynny. Ni lesâ i

chwi ddywedyd, eich bod yn yfed ac yn tyngu, ac yn esgeuluso dyledswyddau sanctaidd, ac yn diffoddyd cynhyrfiadau yr yspryd i ryngu bodd Duw: hynny oedd cymmaint a phe cablech chwi y Tywysog, a thorri ei gyfreithiau, a cheisio ei ladd, a dywedyd wneuthur o honoch hyn oll i rhyngu bodd iddo. Pwy gan hynny sydd yn ymhoffi yn eich pechod a'ch marwolaeth? Nid oes neb ar sy'n dwyn delw Duw arno: am fod yn rhaid iddynt hwy fod o'r un meddwl ag ef. Fe a'i gŵyr Duw nad yw ond pleser bychan i'ch athrawon ffyddlon, eich gweled yn gwasanaethu eich gelyn marwol, ac ynfyd anturio eich cyflwr tragywyddol, a rhedeg yn wallgofus i fiammau uffern. Llawer gwaith y gorfydd arnom mewn gweddi ddirgel gwyno wrth Dduw â chalonnau trymion. *Och Arglwydd, ni a lafarasom wrthynt yn dy enw, eithr ni wnaethant gyfrif o honom; mynegasom iddynt yr hyn yr wyt ti yn ei beri i ni fynegi iddynt ynghylch embydrwydd stât annychweledig, ond ni choeliant mohonom ni. Ni a fynegasom iddynt ddarfod iti dystiolaethu, nad oes heddwch i'r annuwiol, Isa.* lvii. 21. *Eithr prin y coelia y gwaethaf o honynt oll eu bod yn annuwiol. Rhai o honynt a ddywedant fod yn eu bryd edifarhau. Eithr maent fyth yr un ffunud: a rhai a ddywedant, iddynt edifarhau yn barod, pryd nad ydynt etto gwedi dychwelyd oddiwrth eu pechodau. Arglwydd, hwn yw cyflwr ein cymydogion truens; ac nis gallwn ni wrtho. Pebaem yn erfyn arnynt trwy ddagrau, ni fedrem moi hannog, a pha beth a allem ni ei wneuthur yn ychwaneg?* Y rhai'n yw'r cwynion a'r griddfannau y gorfydd ar lawer gweinidog truan eu gwneuthur. Ac a ydych chwi yn tybied fod gantho efe ddim plefer yn hyn? *Ai pleser iddo efe* eich gweled yn myned ymlaen mewn pechod, ac nad allo mo'ch attal? Eich gweled yn llawen, pryd nad ydych siccr o fod un awr allan o uffern!

Pwy gan hynny sydd yn ymhyfrydu yn eich pechod? Neb ond tri gelyn mawrion Duw.—yn 1, y *cythraul* yn ddiau sydd yn ymhyfrydu yn eich pe-

chod

chod a'ch marwolaeth : canys hyn yw gwir ddiben ei holl brofedigaethau ef : o herwydd er mwyn hyn y mae efe yn gwylio nos a dydd : ni ellwch chwi ryngu bodd iddo yn well na myned rhagoch yn y pechod.

2. Yr *annuwiol* hwythau a ymhyfrydant yntho, am ei fod yn cyttuno â'u naturiaeth hwynt.

3. Ond myfi a wn er hyn ei gyd, nad ydych yn bwriadu rhyngu bodd i'r *cythraul*, pan ydych yn rhyngu ei fodd ; eithr eich *cnawd* eich hun, y gelyn mwyaf a pheryglaf yr y'ch yn bwriadu rhyngu-bodd iddo. Y cnawd yw efe, yr hwn a fynnei ei dacclu, a phorthi mwythau iddo mewn bwyd, diod a dillad ;—a fynnai ei foddhau mewn mawl a bri gyda'r byd ; a'i foddhau mewn chwaryddiaeth, trythyllwch, a feguryd : hwn yw'r Llyngc-lyn fy'n llyngcu'r cwbl. Hwn yw'r Duw yr ydych yn ei wafanaethu. *Phil.* iii. 18.

Eithr attolwg iwch' aros ychydig ac ystyriwch, yn 1. (Holiad) A ddylae eich cnawd gael ei fodloni oflaen eich gwneuthurwr ? A anfodlonwch chwi yr Arglwydd, a'ch cyfeillion duwiol, i fodloni eich chwantau anifeiliaidd a'ch dymuniadau anianawl ? Ai nid yw Duw yn deilwng o fod yn rheolwr ar eich cnawd ? Oni chaiff efe ei reoli ef, ni cheidw efe mohono.

2. (Holiad) Mae eich cnawd yn fodlon i'ch pechod ; eithr a yw eich cydwybod fodlon ? Onid yw hi yn grwgnach o'ch mewn, ac yn dywedyd i chwi weithiau nad yw pob peth yn dda, ac nad yw'ch cyflwr mor ddiogel ac y dangofwch ei fod ? Ac oni ddylei eich heneidiau a'ch cydwybodau gael eu bodloni oflaen y cnawd llygredig yna ?

3. (Holiad) Eithr onid ydyw eich cnawd yn darparu hefyd i'w anfodlondeb ei hun ? Mae efe yn caru yr abwyd, neu'r *bait*, eithr a yw yn dda gantho y bâch ? Mae yn caru y ddiod gadarn y tameidiau melusion—y chwaryddiaeth a'i loddest ; eithr a yw efe yn caru *Melldith Duw* ? A ydyw hoff gantho

dan

dan grynu sefyll gerbron ei frawdle ef, a chael ei farnu i dân trag'wyddol? A yw hoff gantho ei boeni byth bythoedd gydâ'r cythreuliaid? Cymmerwch y cwbl ynghyd, canys nid oes gwahanu rhwng pechod ac uffern, ond yn unig trwy ffydd a chywir ddychweliad. Os cedwch chwi y naill, mae'n rhaid i chwi gael y llall. Hawyr, fe ddylid ystyried y cwestiwnau hyn gan bob dyn ac sydd yn credu fod gantho Enaid i'w gadw neu i'w golli, cyn i chwi fyned ddim pellach.

Athr. 5. Mae Duw mor daer am droedigaeth pechaduried, ai fod ef yn dygn ddyblu ei eirchion a'i gynghorion, *Trowch chwi, trowch chwi, paham y byddwch feirw!*

Yr Athrawiaeth hon yw'r cymhwysiad o'r hon o'r blaen, megis defnydd o gynghor; ac yn ôl hynny y trinaf hi. A oes un pechadur annychweledig a'r sy'n clywed y dyga eiriau hyn o'r eiddo Duw? A fynnech chwi wybod ewyllys Duw? Och! Hyn yw ei ewyllys ef, ar i chwi droi yn ebrwydd. Clywch gan hynny chwi oll ar sy'n byw yn ôl y cnawd: yr Arglwydd, yr hwn a roddes iti dy anadl a'th fod, a anfonodd attat gennadwri o'r nefoedd; a hon yw ei gennadwri ef, *Dychwelwch, dychwelwch, paham y byddwch feirw!* Yr hwn sydd gantho glustiau i wrando, gwrandawed. A gaiff llaferydd y mawrhydi trag'wyddol ei esgeuluso? Pettau efe ond taranu yn ofnadwy, tydi a arswydit. Ah! Mae y llais ymma yn perthyn yn nês iti. Pettau efe yn dywedyd wrthyt, *ti a fyddi marw foru*, ni chymmerit mo hynny mewn ysgafnder. *Ah! Ond mae'r gair hwn yn perthyn i'th fywyd neu i'th farwolaeth dragywyddol. Mae efe yn gorchymmyn hefyd, fel pe dywedasei wrthyt, yr wyf fi yn gorchymmyn iti, ar yr ufudd-dod sydd ddyledus arnat imi dy greawdwr a'th Bryniawdwr, a'r iti ymwrthod â'r cnawd, y byd, a'r cythraul, a dychwelyd attaf fi fel y gellych fyw.*

Pa beth weithian a wnewch chwi bechaduriaid? Pa beth sydd yn eich bryd? A drowch chwi ai peidio?

dio? Na chloffwch ymhellach rhwng dau feddwl. *Os yr Arglwydd sydd Dduw*, canlynwch ef: os eich cnawd sydd Dduw, yna gwasanaethwch ef etto. Os yw'r nefoedd yn well na'r ddaear a'r difyrwch cnawdol, deuwch ymaith gan hynny a cheisiwch *wlâd well*, a thrysorwch iwch' drysor lle nid oes na rhwyd na gwyfyn yn llygru, ac nad ejll lladron gloddio trwodd a lledratta; a deffrowch ar y diwedd, a'ch holl allu, i geisio y *deyrnas ddi-sigl. Heb.* xii. 28. Ystyriwch yn 1. Pa barattôad a wnaeth *Trugaredd i'ch Iechydwriaeth?* A pha dostûri yw bod neb yn ddamnedig gwedi hyn i gyd. Bechaduriaid, fe orchymynir ini wneuthur y gennadwri hon attoch chwi oll, megis oddiwrth yr Arglwydd, *Deuwch, canys y mae pob peth yn barod. Luc.* xiv. 17. A *ydyw pob peth yr barod? A chwithau yn ambarod?* Mae Duw yn barod i'ch croesawi, ac i faddeu i chwi gymmaint ac a wnaethoch i'w erbyn, os gwnewch chwi ond dyfod, er cyd y pechasoch. Er i chwi fod yn afradlon, a rhedeg ymaith oddiwrth Dduw, ac aros cyhyd, mae efe yn barod i'ch cyfarfod, a'ch cofleidio yn ei freichiau, a llawenychu yn eich dychweliad, os gwnewch chwi ond troi. Oh na byddddai dy lygaid, a'th galon wedi ei hagoryd i wybod deeced cynnyg a wneir iti yn awr, a llawened cennadwri gydâ pha un yr ydys yn dy wahôdd—*y mae pob peth yn barod.*

2. Ystyria pa wahoddion a gefaist i droi a byw. Y *pen gwahoddwr* yw Duw ei hun. Yr hwn sydd yn llywodraethu'r nefoedd a'r ddaear, sydd yn gorchymmyn iti droi, a throi yn ebrwydd heb oedi: mae efe yn gorchymyn i'r haul redeg ei yrfa, a chyfodi arnat bob boreu; ac er iddo fod yn greadur mor ogoneddus, a llawer gwaith mwy na'r holl ddaear, er hynny mae yn ufuddhau iddo, ac heb ballu munnudyn o'i amser gosodedig. Mae efe yn gorchymyn i holl blanedau a sêr y nefoedd, hwythau yn ufuddhau. Mae efe yn gorchymmyn i'r môr lenwi a threio, ac i'r holl greadigaeth gadw ei drefn,

a'r

a'r cwbl a ufuddhant iddo. Angylion nef a ufuddhânt iddo, *Heb.* i. 14. Ac er hyn os gorchymmyn efe ond i bechadur droi, nid ufuddhâ efe iddo. Efe yn unig sydd yn ei dybied ei hun yn ddoethach na Duw. Efe a ymgyndyna ac a ymddadleu ddadl y pechod, ac ni arbed. Os yr Arglwydd Hollalluog a adrodd y gair, y nefoedd ac oll sydd ynddi a ufuddhânt iddo. Eithr pettau ond galw ar feddwyn allan o'r dafarn, nid ufuddheiff efe: neu os geilw efe bechadur bydol, cnawdol, i ymwadu ac ef ei hun, ac i farweiddio y cnawd, ac i osod ei galon a'r etifeddiaeth well, nid ufuddhaiff efe. Pettau gennyt ddim bywyd a theimlad ysbrydol o'th fewn, ti a adnabyddit y llais, ac a ddywedit, *Oh dymma alwad fynhad, pa fodd y clywaf ar fynghalon anufuddhau!* Megis y gwelwch fel hyn pwy yw'r hwn sydd yn eich galw, ac y dylai hynny eich annog i wrando ar ei alwad a throi: felly ystyriwch hefyd, trwy ba offerynnau, a mynyched a difrifed y mae yn gwneuthur hyn.

1. Mae gan *bob dalen o lyfr bendigedig Duw* (fel pettau) *llais, ac y mae yn galw o hyd arnat, trô a bydd fyw, trô, neu di a fyddi marw.* Pa fodd y medri di ei agoryd, a darllain dalen, neu wrando pennod, a bod heb ddeall fod Duw yn peri iti droi?

2. *Hyn yw llais pob Pregeth yr ydwyt yn ei chlywed.*

3. *Hyn yw llais aml gynnwrf yr ysbryd*, yr hwn sydd yn llefaru y geiriau hyn yn ddirgel drostynt drachefn, ac yn dirio arnat am droi.

4. *Mae'n debygol fod hyn weithiau yn llais dy gydwybod dy hun.* Onid yw yn eglur iti weithiau nad yw pob peth yn dda gyda thi? Ac onid yw dy gydwybod yn mynegi iti, mai rhaid iti fod yn *ddyn newydd*, ac yn mynych alw arnat am droi.

5. *Llais grasusiawn esamplau y duwiol yw hyn.* Pan ganfyddech hwynt yn byw bywyd nefol, ac yn ffoi rhag y pechod yr wyt ti yn ei hoffi, mae hyn yn galw arnat i droi.

6. *Llais holl weithredoedd Duw yw*; canys hwy-

thau

thau ydynt Lyfrau Duw, yn dyſgu iti y wers hon, trwy ddangos iti ei fawredd, a'i ddoethineb, a'i ddaioni ef. Gwel *Pſal.* xix. 12. *Pob amſer y mae'r Haul* yn cyfodi arnat, y mae yn dyfal alw arnat i droi; megis pe dywedai, *I ba beth yr wyf fi yn ymdeithio ac yn amgylchu y byd o'i blegyd, ond i fynegi i i ddynion ogoniant eu gwneuthurwr, ac i'w goleuo i wneuthur ei waith ef.*

7. *Hyn yw Llais pob trugaredd ar ſy ar dy helw,* pe medrit ond eu clywed a'i deall, maent oll yn llefain arnat, *dychwel.* I ba ddiben y mae'r ddaear yn dy gynnal, ond i geiſio ac i waſanaethu yr Arglwydd? Paham y mae hi yn cyfrannu i ti ei ffrwythau, ond i'w waſanaethu ef? Paham y mae'r holl greaduriaid yn dy waſanaethu di a'i llafur, ac a'i heinioes, ond fel y gellit tithau waſanaethu eu Harglwydd hwy a thithau? Paham y dyru efe i ti amſer, ac iechyd, a nerth, ond i'w waſanaethu ef? Paham y mae gynnyt fwyd a diod a dillad, ond i'w waſanaethu ef? A ddarfu i ti erioed weddio arno ef mewn cyfyngder am gymmorth; ac oni ddeallaiſt di y pryd hynny mai dy ran di oedd troi, a'i waſanaethu ef os gwaredai efe dydi?

8. *Heblaw hyn, Llais pob cyſtudd yw i alw arnat fryſſio a throi.* Mae clefyd a gofid yn llefain am droi: ac y mae tlodi a cholled am gyfeillion, a phob blagurun o wialen cerydd hefyd yn llefain, am i ti droi: ac etto ni wrandewi di ar y galwad.

Goſod weithian yr holl bethau hyn ynghyd, a gwel beth a ddylei ddigwydd o honynt. Yſgatfydd hon yw y flwyddyn ddiweddaf; yſgatfydd y dydd diweddaf-oni throi, yr wyt yn ddyn marw colledig. Pettau dy lygaid ond yn agoryd i ganfod, pa le yr wyt yn ſefyll, ſef ar ymyl uffern, ac i ganfod pa ſawl mîl ſydd yno yn barod ar na throeſant, ti a ganfyddit ei bod hi yn bryd i ti edrych yn dy gylch.

Yr Arglwydd ſydd yn gweled i ba le yr wyt ti yn myned yn well na thydi dy hun; hynny a wna iddo ef alw ar dy ôl, *Dychwel dychwel*; efe a ŵyr

beth

beth a ddaw o honot, oni ddychweli: mae ef yn meddwl yntho ei hun, *Oh! oni ddychwel y pechadur tlawd hwn, efe a'i teifl ei hun i boenau didrangcedig*; o herwydd paham y mae ef yn galw ar dy ol di, *Dychwel, dychwel.* O bechaduriaid! Pe gwyddech chwi y filfed ran o'r peryglon 'sy agos attoch, a'r trueni yr ydych yn rhedeg iddo, yn gystal ac y gŵyr Duw, ni byddai raid i ni mwyach alw ar eich ôl i *ddychwelyd.*

Athr. 6. Mae yr Arglwydd yn ymostwng i ymresymmu'r matter â phechaduriaid annychweledig, ac i ofyn iddynt; paham y byddant feirw?

Ymresymmiad chwîth yw, yn gystal o ran y ddadl, a'r ymresymwyr.

1. Y ddadl neu'r cwestiwn a adroddir i ymresymmu yn ei gylch yw. *Paham y damnia'r annuwiol hwynt eu hunain? Neu, paham y byddant feirw yn bytrach na dychwelyd?* A oes ganthynt un rheswm digonol am wneuthur felly?

2. Yr ymrhesymwyr ydynt, *Duw a Dyn*: y Duw tra sanctaidd, a phechaduriaid annuwiol annychweledig.

1. Onid yw yn beth rhyfedd, yr hyn y tebygir fod Duw yn ei rhagfwrw yn hyn o fann y byddei un dyn yn ewyllysio marw a bod yn ddamnedig? Ië, y byddai hyn yn gyflwr yr holl rai annuwiol, hynny yw, y rhan fwyaf o'r byd! Eithr chwi a ddywedwch, ni eill hyn mor bod; *canys natturiaeth a chwennych ei chadwedigaeth a'i dedwyddwch ei hun; ac y mae'r annuwiol mwy arnynt eu hunain nag y mae eraill, ac nid dim llai: ac am hynny pa fodd y dichon neb fynnu bod yn ddamnedig?* I'r hyn yr attebaf.

1. Y sicr wirionedd yw, na ddichon neb ewyllysio dim drwg megis drwg, ond yn unig megis ac y mae ganddo fath ar rîth o ddaioni: llai o lawer y dichon neb ewyllysio ei boenydio yn dragywydd. Trueni megis y cyfryw, sef fel y mae yn drueni, ni chwennychir gan neb.

2. Ond etto er hynny ei gyd, mae yn ddigon

gwir

gwir yr hyn y mae Duw yn ei ddyſgu i ni ymma; *Mai yr achos pahamy mae yr annuwiolyn meirw ac yn bod yn ddamnedig yw, o herwydd hwy a fynnant feirw a bod yn ddamnedig.*—A hyn ſydd wir mewn amryw foddion.

(1.) *O herwwydd hwy a gerddant y ffordd ſy'n arwain i uffern, er i Dduw à dyn ddywedyd wrthynt, i ba le y mae hi yn myned, a pha ley mae ei diwedd*; ac er i Dduw dyſtiolaethu cyn fynyched yn ei air, os ânt rhagddynt yn y ffordd honno, y byddant ddamnedig, ac na byddant gadwedig oddi eithr iddynt ddychwelyd. *Eſai.* xlviii. 22. gwel. *Eſai.* lix. 8. gwel. Mae ganthynt air a llŵ y Duw byw am dano, oni ddychwelant, nad ânt i mewn i'w orphwysfa ef. *Heb.* iii. 11. Ac etto annuwiol ydynt, ac annuwiol fyddant, dyweded Duw a dyn a fynnont; cnawdol ydynt, a chnawdol fyddant; bydol ydynt, a bydol fyddant, er i Dduw ddywedyd wrthynt fod *cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw; a os car neb y byd* (yn y meſur hwnnw) *nid yw cariad y Tad ynddo ef: Iag.* iv. 4. 1 *Ioan* ii. 15. Ac felly yn ddigwyddawl mae y dynion hyn yn mynnu bod yn ddamnedig, er nad ydynt ar uniawn-gyrch: maent hwy yn ewyllyſio y ffordd i uffern, ac yn caru y ſiccr achos o'u poendod, er nad ydynt foddlon i uffern ei hun, nag yn caru'r poen ſy raid iddynt ei goddef.

Bechaduriaid, onid dymma wirionedd eich cyflwr? Ni fynnwch chwi mor lloſgi yn uffern, eithr chwi a gynheuwch y tân trwy eich pechod, ac a'ch bwriwch eich hunain iddo: ni fynnech chwi mo'ch poenydio yn dragywydd gyda chythreuliaid; eithr chwi a wnewch yr hyn a ddwg hynny i ben yn ddiammau, er a allo dim a ddyweder i'r gwrthwyneb. O'r un ffunud yw a phe dywedech, *myſi a yfaf wenwyn, ond er hynny ni fynnwn i mor marw. Mi a m bwriaf fy hun bendramwnwgl o ben y clôchdy, ond er hynny ni laddaf fi mohonof fy hun; mi a frathaf y gyllell hon yn fy nghalon, ond ni ddygaf fi mo'm hoedl er hynny; mi a roddaf y tân ymma yn nhô fy nhŷ, ond er hynny ni*

fynnai

*fynnai mo'i losgi.* Felly yn uniawn y mae gyda dynion annuwiol; hwy a fyddant annuwiol, ac a fyddant byw yn ol y cnawd a'r byd, ac etto ni fynnant hwy gael mo'i damnio.

2. Ymhellach, *ni arfer yr annuwiol mo'r moddion hynny, heb ba rai nid oes gobaith o'u Iechydwriaeth.* Y sawl ni fwyttu a eill cystal ddywedyd yn groyw, na fyn efe mor byw, oddi eithr medru o hono ef ddywedyd pa fodd i fyw heb fwyd. Y sawl ni cherddo ei ffordd, a eill yn groyw ddywedyd cystal ac na fyn efe ddyfod i ben ei siwrnau.

3. *Ië. nid hyn yw'r cwbl, ond y mae yr annuwiol yn anfodlon i'w iechydwriaeth eu hunain.* Er iddynt hwy allael chwennych rhyw beth y maent yn alw ar enw y nefoedd; er hynny y nefoedd ei hunan; a'i ystyried yng wir natturiaeth y dedwyddwch, nid ydynt yn ei chwennych; ie y mae eu calonnau yn llwyr wrthwyneb iddo. Cyfiwr o berffaith Sancteiddrwydd, ac o gyfannedd gariad, ac o foliant i Dduw yw'r nefoedd. Ac nid oes gan yr annuwiol galon i hyn. Mae llawenydd y nef o natturiaeth mor bûr ac mor ysbrydol, na ddichon calon yr annuwiol mo'i wir chwennych.

Felly chwi welwch ar ba sail y mae Duw yn rhagfwrw, fod yr annuwiol yn fodlon i'w dinystr eu hunain: *ni throant, er bod yn rhaid iddynt droi, neu feirw.* Ac megis ac y mae'r ddadl yn achos o ryfeddod felly hefyd yn 2. Y mae yr *ymresymwyr*, sef y byddei i Dduw ymostwng cyn iseled ac i ddadlau y y cwyn a Dyn fel hyn; ac y byddai dyn mor ddall, ac mor gyndyn ryfedd, a bod yn rhaid wrth hyn oll mewn matter mor eglur; ïe ac i wrth'nebu hyn oll, pan yw ei iechydwriaeth ei hunan yn sefyll ar y diben o hynny. Nid rhyfedd os hwy ni wrandawant arnom ni sydd ddynion, pryd na wrandawant ar yr *Arglwydd* ei hun, fel y dywaid Duw, *Ezec.* iii. 7. Pan anfonodd ef y Prophwyd at yr *Israeliaid.* Gwel.

# Defnydd.

Edrychwch bechaduriaid am eich rhefymmau goreu a chadarnaf, os mynnwch chwi wneuthur eich ffordd yn dda; chwi a welwch pwy fydd weithian i chwi ymdrîn ag ef. Pa beth a ddywedi, tydi y dyn anianawl annychweledig, a feiddi di anturio ymddadleu â Duw? A wyt ti'n barod i roddi dy enw i mewn? Mae Duw yn gofyn iti, paham y byddi farw? A wyt ti gwedi dy arfogi ag atteb digonol? A gymmeri di arnat brofi fod Duw yn cam-gymeryd, ac mai tydi fydd ar yr iawn? Oh pa anturiaeth yw hon! Mae efe yn galw arnat i ddychwelyd, a thithau nis gwnei. Mae efe yn erchi i chwi wneuthur hyn yn ebrwydd, fef y dwthwn hwn, tra gelwir hi heddyw; a chwithau a oedwch, ac a dybiwch ei bod hi yn abl dda yr amfer yn ôl hyn. Mae efe yn dywedyd, bod yn rhaid iddo fod yn gyfnewidiad cyfan, fef, *calon newydd, ac yfpryd newydd*; *Exec.* xxxvi. 26. a bod yn rhaid i chwithau fod yn fanctaidd, ac yn greaduriaid newydd, a chwedi eich ail eni; a chwithau a dybiwch mai llai a wafanaethau'r tro, ac mai digon yw clyttio yr hên ddyn, heb fyned yn newydd. Pwy fydd yn awr ar yr iawn, ai Duw ai chwychwi? Mae Duw yn galw arnoch i droi a byw bywyd fanctaidd, ac ni fynnwch; wrth eich bucheddau anufudd yr ymddengus na fynnwch chwi.

Yftyriwch yr hyn y mae'r Arglwydd yn ei ofyn, *Dychwelwch, dychwelwch, paham y byddwch feirw?*— Ydyw angau trag'wyddol yn beth i'w chwennych? Ydych chwi yn caru uffern? Pa refwm fydd gennych am eich difetha o'ch gwirfodd? Os tybiwch fod yn beth rhefymol i chwi bechu, oni ddylech gofio mai *cyflog pechod yw marwolaeth*? *Rhuf.* vi. 23. Chwi a ddylech nid yn unig ymofyn a ydych chwi yn caru y neidr, ond a ydych chwi yn caru y colyn? Ni ddichon d'm fod, a dalo ei yftyried i'ch efgufodi, am efgeulufo eich iechydwriaeth eich hunain.

 Canys.

Canys ein Achubwr a ddywaid, *pa leſâd i Ddyn, os ennill yr holl fyd, a cholli ei Enaid ei hun? Marc* xiii. 36. Attolwg i chwi yn awr gadewch i'r gair hwn ddyfod yn nês at eich calonnau.

Minnau a âf rhagof at y Seithfed Athr.

7. Oni ddychwel dynion wedi hyn oll, nid o ran Duw y maent yn ddamnedig, ond o'u rhan eu hunain, ſef, oblegid eu cyndynrwydd eu hunain: meirw y maent, oblegid hwy a fynnant feirw, hynny yw, oblegid na fynnant ddychwelyd.

Os mynnwch chwi fyned i uffern pa help ſydd: Mae Duw yn hyn o fan yn ei glirio eu hun oddiwrth eich gwaed: ni chaiff ef ſefyll arno ef, os byddwch chwi golledig. Gweinidog esgeulus a eill ei dynnu ef arno ei hun; a'r ſawl ydynt yn eich cefnogi mewn pechod, neu heb eich rhwyſtro a allant ei dynnu ef arnynt hwythau; eithr bydded ſiccr gennych, na chaiff ef ſefyll ar Dduw.— Yr Arglwydd a ddywaid am ei winllan anfuddiol *Eſa.* v. 1, 2, 3, 4. Gwel. Goſodwyd einioes ger eich bronnau; llawenydd y nef a ddatguddiwyd i chwi yn yr Efengyl; y ſiccrwydd o honynt a eglurwyd; y ſiccrwydd o boenau trag'wyddol y rhai damnedig a fynegwyd i chwi: oni fynnech chwi gael golwg ar y nefoedd ac uffern, pa beth yn ychwaneg a ddymunech? Criſt a oſodwyd gerbron eich llygaid megis wedi ei groeſhoelio, *Gal.* iii. 1. Mynegwyd i chwi gan-waith nad ydych ond dynion colledig nes eich dyfod i mewn atto ef. Cyn fynyched a hynny y mynegwyd i chwi am ddrwg pechod, am wagedd y byd, â'r holl felusfwedd a'r golud a ddichon ef ei gyfrannu; am fyrdra ac anſiccrwydd eich einioes; a didr[illegible]e barhâd llawenydd, neu benyd y bywyd a ddaw. Hyn oll ac ychwaneg na hyn a fynegwyd i chwi, ac a fynegwyd i chwi drachefn, ie nes i chwi flino yn ei glywed, ac nes medru o honoch wneuthur llai cyfrif o hono o herwydd i chwi ei glywed ef cyn fynyched. Tebyg ydych i gi'r gôf, yr hwn a ddygwyd rth ymg'nefindra i gyſgu

tan

ran ſŵn y morthwylion, a'r pryd y bo'r gwreichion yn taſcu o amgylch ei gluſtiau. Ac er na ddarfu i hyn oll mo'ch troi, yr ydych chwi etto yn fyw, ac a allaſech gael trugaredd hyd y dydd heddyw, ped faſai gennych galonnau i'w dderbyn. Ac yn awr gadewch i reſwm ei hun fod yn farnwr, ai o ran Duw, yntau o'ch rhan eich hunain y mae, os byddwch chwi gwedi hyn ei gyd yn annychweledig a damnedig? Os byddwch feirw yn awr, hynny ſydd oblegid chwi a fynnech feirw. Pa ddymuniadau o'ch hawddfyd a adroddodd yr Arglwydd yn ei ſanctaidd air? A pha doſturi y ſafodd efe gerllaw i chwi! gan ddywedyd, *Oh na wrandawſei fy mhobl arnaf, na rhodiaſei Iſrael yn fy ffyrdd.* *Pſal.* lxxxi. 13. *Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad yſtyrient eu diwedd?* *Deut.* xxxii. 29.

Ond chwi a garaſoch y byd a'ch cnawd uwch ei law ef, ac am hynny ni wrandawech ef.

Nid rhyfedd gan hynny oedd *iddo eich gollwng ynghyndynrwydd eich calon, a'ch myned yn ol eich cyngor eich hunain.* Efe a ymoſtyngodd i ymreſymmu a chwi, ac i ofyn i chwi, *Pa anwiredd a gawſoch chwi ynof fi gan i chwi ymbellhau oddi wrthyf, a rhodio ar ôl oferedd, a myned yn ofer?*

Mae efe yn llefain allan fel ped fai ar y creaduriaid mudion i wrando ar y cŵyn ſydd ganddo yn eich herbyn, *Mica.* vi. 2, 3, 4, 6. gwel. *Eſay.* i. 2, 3, 4. *Deut.* xxxii. 6. Pan ganfu ef eich bod chwi yn ei wrthod ef yn ddiachos, ac yn troi ymaith oddiwrth eich Harglwydd a'ch bywyd, i ymlid ar ol ûs, a mân-blu y byd, efe a fynegodd i chwi eich ffoledd, ac a'ch galwodd i orchwylwaith mwy buddiol. Gwel *Eſay.* lv. 1. 2, 3, 6, 7. ac *Eſay.* i. 16, 17, 18.

A phan na wrandewch, pa achwynion y goſodaſoch ef arnynt, gan haeru y peth arnoch chwi, mai eich gwrthnyſigrwydd a'ch pengaledrwydd ydoedd, *Jer.* ii. 12, 13. gwel. Llawer gwaith y cyhoeddodd Criſt i chwi y rhâd wahoddiad hwn-

nw, *Dat.* xxii. 17. *yr hwn ſydd a ſyched arno, deued, a'r hwn ſydd yn ewyllyſio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhâd.*

Eithr chwi a berwch iddo ef gwyno yn ôl yr holl gynnygion hyn, *ni ddeuant attaf fi, fel y caffont fywyd. Ioan* v. 40. Efe a'ch gwahoddodd i wledda gyd âg ef yn nheyrnas ei ras, a chwithau oeddych â'ch eſguſodion gennych oddi wrth eich tiroedd, a'ch anifeiliaid, a'ch gorchwylion bydol, a phan na fynnech ddyfod, dywedaſoch nas gallech, ac a'i hannogaſoch yntau i roddi ei fryd na chaech chwi byth *broſi o'i ſwpper ef. Luc* xiv. 15 hyd y 25.

Ac o herwydd pwy yn awr y mae'r peth ond o'ch herwydd chwi eich hunain? A pheth a fedrwch chwi ddywedyd yw'r achos pennaf o'ch damnedigaeth, ond eich ewyllys-fryd eich hunain? Chwi fynnech eich damnio. Yr holl fatter a eglurwyd gan Griſt ei hun, *Diar.* i. 20. hyd y diwedd. Gwel yr holl deſtyn—am ei fod mor gyflawn yn dangos yr achos o ddinyſtr yr annuwiol.

Nid yw'r peth o herwydd na ddyſgai Duw hwynt, ond o herwydd na fynnent hwy mo'i dyſgu. Nid yw'r peth o herwydd na's galwai Duw hwynt, ond o herwydd na ddychwelent hwy wrth ei gerydd ef. Eu gwrthnyſigrwydd ſydd yn eu difetha.

Wele ſyrs, bellach nyni a ddaethom o hyd i ddirfawr-fradwr a llofrudd eneidiau, ſef dynion eu hunain, eu hewyllys eu hunain: beth ſydd etto yn ôl i chwi i'w wneuthur ond rhoddi barn yn ol y dyſtiolaeth, a chyfaddef yr anwiredd mawr hwn o flaen yr Arglwydd, ac ymddaroſtwng o'i blegyd. A gwelwch mai'r gelyn mwyaf i ddyn ydyw efe ei hun; ac mai y farnedigaeth fwyaf, ar a ddichon ddigwydd iddo ef yn y byd hwn, yw ei adael ef iddo ei hun, ac mai'r gwaith mwyaf ſydd gan râs i'w wneuthur yw ein gwaredu ni rhagom ein hunain; ac mai yn eu herbyn eu hunain y dylai fod yr achwynion mwyaf gan ddynion.

Weithian

Weithian, er nas gallaf obeithio cystal o bawb, mi a obiethiaf fod rhai o honoch, erbyn hyn yn bwriadu *troi a byw:* a'ch bod yn barod i ofyn i mi fel y gofynnodd yr Iuddewon i i Pedr, *Act.* ii. 37. pan ddwys-bigwyd hwy yn eu calonnau, ac y dywedasant, *Ha-wyr frodyr, beth a wnawn ni? Pa fodd y gallem ni fod yn wir ddychweledig? Yr ydym ni yn ewyllysio pettaem ni ond gwybod ein dyledswydd: Na atto Duw i ni ddewis distryw, trwy wrthod troi fel y gwnaethom hyd yn hyn.*

Os y rhai hyn yw amcanion a bwriadau eich calonnau, ni a ddywedaf am danoch megis y dywedoedd Duw am bobl oedd yn addo'n dêg, *Deut.* v. 28, 29. *Da y dywedasant yr hyn oll a ddywedasant: Oh na byddei y cyfryw galon ynddynt i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion, bob amser!* Da yw eich bwriadau: Oh na byddei galon ynoch i gyflawni y bwriadau hyn! A than obaith o hyn, myfi a'ch hyfforddiaf yn llawen, beth i'w wneuthur, a hynny yn fyrr, fel y galloch yn hawsei gofio, i'w ymarfer.

Yr Hyfforddiad 1.

Os mynnwch chwi fod yn ddychweledig ac yn gadwedig, *gwnewch eich goreu ar ddeall angenrheidrwydd a gwir naturiaeth dychweliad: oddi wrth ba beth, ac at ba beth, a thrwy ba beth* y mae'n rhaid i chwi ddychwelyd.

(1.) *Oddi wrth pa beth?* Mewn un gair, *oddi wrth* eich *Hunan-gnawdol*, yr hwn yw diben yr holl rai annychweledig; oddi wrth y *cnawd*, yr hwn a fynnei ei foddhau o flaen Duw, ac a fynnei yn oestadol eich denu i hynny: oddi wrth y *byd* yr hwn yw'r abwyd; ac oddi wrth y *Cythraul* yr hwn yw twyllwr yr eneidiau.

(2.) Yn y lle nesaf, rhaid i chwi wybod, *At ba beth* y mae yn rhaid i chwi ddychwelyd; a hynny yw, *At Dduw*, megis eich diben; at *Grist* megis y ffordd at y Tâd: at *sancteiddrwydd* megis y ffordd osodedig i chwi gan Grist: ac felly at yr arferiad o holl *gynnorthwyon a moddion grâs*, a ganiatteir

nidteir ac a orchymmynir i chwi gan yr Arglwydd.

(3.) Yn olaf, rhaid i chwi wybod *trwy* ba beth y mae'n rhaid i chwi ddychwelyd. *Hynny hefyd yw, trwy Grist megis yr unig Brynwr a'r Eiriolwr; a thrwy yr Yspryd Glân megis y sancteiddiwr; a thrwy y gair megis offeryn yr yspryd; a thrwy ffydd ac edifeirwch megis y moddion a'r dyledswyddau o'ch rhan chwithau i'w cyflawni.* Hyn oll sydd angenrhaid.

Hyfforddiad yr 2.

Os mynnwch fod yn ddychweledig a chadwedig, *byddwch yn faith mewn dirgel a difrifol-ystyriaeth.* Anystyriaeth sy'n anafu 'r byd.

Hyfforddiad y 3.

*Byddwch yn gwrando gair Duw yn ddiwyd ac yn fynych, yr hwn yw'r moddion cyffredinol o droedigaeth dynion.* Darllenwch yr ysgrythur, neu gwrandewch ar ei darllen hi. Dyfal wrandewch ar gyhoeddus bregethiad y gair. Megis ac y llewyrcha Duw y byd trwy'r haul, ac nid trwyddo ei hun yn unig hebddo ef; felly y dychwel efe ac y ceidw ddynion trwy ei weinidogion, y rhai ydynt oleuadau y byd. *Act.* xxvi. 17, 18. *Mat.* v. 14. Pan ddarostyngodd efe *Paul* yn rhyfeddol, y mae yn ei anfon at *Ananias*, *Act.* ix. 10. A phan anfonodd ef Angel at *Cornelius*, nid yw hynny ond i erchi iddo anfon am *Pedr*, yr hwn a fynegei iddo beth oedd iddo i'w gredu a'i wneuthur. *Act.* x. 5, 6.

Hyfforddiad y 4.

*Cyrchwch at Dduw mewn ystod wastadol o ddifrifol weddio:* Addefwch, a galerwch am eich buchedau gynt, ac ymbiliwch am ei ras ef i'ch goleuo a'ch troi.

Hyfforddiad y 5.

*Rhoddwch heibio eich pechodau hynod a gwyllt-ffol yn ebrwydd: sefwch, ac nad ewch ddim pellach y ffordd honno.* Os eich hên bechodau a wnewch chwi eilwaith, pa fendith a ellwch chwi ddisgwyl ar y moddion i'ch troi.

Hyfforddiad y 6.

*Newidiwch*

*Newidiwch eich cymdeithias ar frys, os yw bossibl, os drwg a fu hi hyd yn hyn* : nid trwy ymwrthod a'ch perthynasau angenrheidiol, ond a'ch cymdeithion pechadurus afreidiol : *Ac ymgyssylltwch â'r rhai sydd yn ofni yr Arglwydd*, ac ymofynwch â hwynt am y ffordd i'r nefoedd. *Act.* ix. 19, 26. *Psal.* xxvi. 4, 5.

Hyfforddiad y 7.

*Rhoddwch eich hunain i'r Arglwydd Iesu, megis Physygwr eich eneidiau*, fel y pardyno efe chwi trwy ei waed, ac i'ch sancteiddio trwy ei yspryd, trwy ei air, a'i weinidogion, y rhai ydynt offerynnau yr yspryd. *Efe yw y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, nid oes mor dyfod at y Tâd ond trwyddo ef.* *Ioan* xiv 6. *Act.* iv. 12.

Hyfforddiad y 8.

Os ydych mewn gwirionedd ar feder troi a byw, *gwnewch hynny yn ebrwydd, heb oedi.* Onid ydych chwi yn ewyllysgar heddyw, nid ydych ddim yn ewyllysio mo'i wneuthur. Cofiwch eich bod hyd y pryd hyn yn eich gwaed, tan euogrwydd llawer mîl o bechodau, a than ddigofaint Duw, a'ch bod yn sefyll ar ymyl uffern, ac nad oes ond megis *Cam rhyngoch ac angau.*

Hyfforddiad y 9.

*Os mynnwch chwi ddychwelyd a byw*, gwnewch hynny yn hollawl, ac *yn llwyr-gwbl.* Na feddyliwch ymddarnio â Christ, a rhannu eich calon rhyngddo ef a'r byd ; ac ymadel â rhyw bechodau, a chadw y lleill, a gollwng ymaith yn unig yr hyn a allo y cnawd ei hebcor : nid yw hyn ond eich siommi eich hunain : rhaid i chwi o'r galon ac yn llwyr-fryd ymwrthod a chwbl oll ar a feddwch, neu ni ellwch fod yn *ddisgyblion iddo ef. Luc* xiv 26, 33.

Hyfforddiad y 10.

*Os mynnwch chwi ddychwelyd a byw*, ymrowch i'w wneuthur. ac na sefwch fyth-fyth megis yn ymgynghori, fel pettau betrusder yn y peth. Na sefwch ar sigl fel ped faech etto yn ansicer pa un ai Duw, ai eich cnawd yw'r meistr goreu : neu pa un ai

pechod ai ſancteiddrwydd yw'r ffordd oreu? Eithr ymaith a'ch hên drachwantau, ac ymrowch ar frŷs, yn reddfol, ac yn ddiyſgog.

Pe gwyddwn i beth ychwaneg i wneuthur o ran eich troedigaeth, yr wyf yn gobeithio y gwnawn ef.

*Eithr o tydi yr hwn wyt raſol Dâd yr yſbrydoedd, yr hwn a dyngaiſt nad wyt yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol, onid troi o honynt a byw, na nacâ mo'th fendith ar yr annogaethau a'r hyfforddiadau hyn: na âd chwaith i'th elynion orfoleddu yn dy olwg, ac i dwyllwr mawr yr eneidiau oreſgyn yn erbyn dy fâb, a'th air a'th yſpryd. O toſturia wrth bechaduriaid truain annychweledig, y rhai nid oes ganddynt galonnau i doſturio wrthynt eu hunain, nac i'w cynnorthwyo! Gorchymyn i'r dall weled, ac i'r byddar glywed, ac i'r marw fyw. Ac na âd i bechod a marwolaeth allael dy wrth'nebu. Deffro y difraw; hwylia yr anhwylus; ſefydla yr anſefydlog; a gwna i lygaid y pechaduriaid ar a ddarllenant y llinellau hyn fod yn [illegible] gwaith yn myned yng nghylch [illegible] dwg hwynt attynt eu hunain, ac [illegible] echod eu dwyn hwynt i ddiſtryw. O [illegible] y gair, yr ymroiadau gweinion hyn a ff[illegible] ennill llawer o eneidiau i'w trag'wyddol lawenydd [illegible] a'th drag'wyddol ogoniant dithau.*

Gras ein Harglwydd Ieſu Griſt, &c.

# Cyngor i dduwioldeb Perſonol a Theuluaidd.

*Fy Ngaredigion,*

NID oes gennyf obaith i weled eich hwynebau chwi yn y nefoedd, oddieithr i chwi ymarferyd a ſancteiddrwydd yma ar y ddaear.

Am hynny, cymmerwch ofal diwyd am ollwng yr Arglwydd Ieſu i reoli yn eich calonnau chwi eich hunain yn gyntaf: ac edrychwch yn ddyfal ar i chwi drin eich holl achoſion bydol wrth ei fodd ef. Edrychwch ar holl orchymynion Duw; a threfnwch eich holl feddyliau, geiriau a gweithredoedd wrthynt, *Sal.* cxix. 6, 34. Os yn yſtyriol ac yn ymarferol ac yn ewyllyſgar, y lletteuwch un pechod yn eich mynweſau, derfydd am danoch tros byth. *Sal.* lxviii. 21. *Ezec.* xviii. 20.

Ceiſiwch eich calon i fod yn wir raſol, ac onidê chwi adeiliedwch yn ofer heb ſylfaen ſiccr; a phan gaffoch ras oddi fewn, arferwch ef yn eich bucheddau oll; rhoddwch yr eiddo Duw iddo: nac eſgeuluſwch weddio arno ef; dyn di-weddi ſydd ddi-ras, *Sal.* xiv. 4. *Job*, xv. 4. *Chwiliwch yr yſgrythyrau beunydd*; Ioan v. 39. un o nodau y rhai gwynfydedig yw eu bod yn myfyrio ynghyfraith yr Arglwydd ddydd a nôs. *Sal.* i. 1, 2.

Cymmerwch ofal am gyſſylltu ynghyd grefydd tu ag at Dduw, a chariad tu ag at ddyn. Bydded uniondeb a thrugaredd yn eich holl farchnadoedd, a'ch achoſion bydol. Bydded diweirdeb a ſobrwydd i'ch dilyn. Bydded gwirionedd difriſwch a gweddeidd-

dra yn harddu eich ymadroddion; gostyngeiddrwydd a dioddefgarwch, symylrwydd a diniweidrwydd a fyddo yn llewyrchu yn eich holl ymarweddiad.

Maddeuwch i'r neb a wnelo gam a chwi, a gwnewch dda iddynt am eu drwg, fel y byddoch blant i'r goruchaf: Byddwch arafaidd yn addaw, a gofalus yn cwplau: cyflawnwch y dyledswyddau perthynol i'ch cyfnessiaid. Na fydded neb o honoch yn dyngwr, nag yn gelwyddwr, nac yn dilyn cyfeilliach ddrwg, nac yn feddwyn, nac yn watwarwr, nac yn falcisus, nac yn gybyddus, nac yn dwyllwr, nac yn gynhenwr, nac yn lleidr, canys dinystr yw diwedd y cyfryw rai. *Diar.* xiii. 20. *Jago* v. 12. *Dat.* xxi 8. 1 *Cor.* vi. 9, 10. *Gal.* v. 19, 20, 21.

Yn ail cymmerwch ofal am fod duwioldeb yn eich teulu, yr hwn sydd hoff ganddo ddaioni yn ei galon, a sydd hoff ganddo ei weled yn ei dŷ hefyd. O na bae pob teulu fel Eglwys grist'nogol; a phob tŷ yn dŷ gweddi, 1 *Cor.* xvi. 19. a phob pen-teulu yn dywedyd gyd â *Josua, myfi a'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd. Jos,* xxiv. 15. ac fel *Dafydd, rhodiaf mewn perffeithrwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ*, Sal. ci. 2. ac er mwyn hynny cymmerwch y reolau canlynol.

1. Na thybiwch fod pethau crefyddol i'w cyflawni yn eich teuluoedd yn unig pan gaffoch arfod oddi wrth achosion bydol; eithr edrychwch ar weddiau mor rheidiol a'ch prydiau bwyd. Cydnabydded penteuluoedd fod eneidiau eu deiliaid wedi eu rhoddi dan eu golygiad hwynt, ac y gofynnir ganddynt hwy gyfrif am y rhai a gyfargoller trwy eu hesgeulusdra hwynt: a'r pryd hynny y cânt weled fod gwaed eneidiau yn euogrwydd trwm; ymogelant ynteu rhag ei gael yn eu godrau hwy, a rag-ddarparont fwy na bwyd tu ag at eu plant a'u gwasanaethwyr, canys rhoddant borthiant i'w hanifeiliaid.

2. Ymarferwch a darllen y gair a chanu Salmau yn eich teuluoedd, *Sal.* cxviii. 15. *Esay.* xxxiv. 16. *Ioan* v. 39. darllenwn i Grist ganu hymn gyd â ei ddisgyblion,

gyblion, y rhai oeddent ei dylwyth ef, *Mat.* xxvi, 30. *Luc*, ix. 18.

3. Megis ac yr ydych yn mynnu cyfrif gan eich deiliaid o'r gorchwylion bydol f'o dan eu dwylo, felly holwch hwynt beth a gofiant o air Duw a glywsont, a pha lesâd y gawsant trwyddo; ydyriwch esampl Crist yn holi ei ddisgyblion, *Mat.* xvi. 11, 13, 15. diamau os arferwch hyn yn ddidwyll, y cewch weled cynnydd eich deiliaid mewn gwybodaeth a dawn da. Yn ddyfal ceisiwch wybod eu cyflyrau ysprydol, a'u hargyhoeddi o drueni a hedigaeth eu nattur, ac o angenrhaid yr ail-enedigaeth, gan ceryddu eu beiau yn ddifrifol, a choleddu pob rhinwedd dda ynddynt er lleied y fyddo. Crybwyll yr efengyl pan fyddai Crist yn y tŷ, ac wrtho ei hun, yr arferei efe hysbysu i'w ddisgyblion bethau rheidiol eu deall, a'u holi a oeddent yn eu cofio, ac yn eu durnad, *Mat.* xiii. 10, 36, 51. *Marc*, iv. 10, 11.

4. Edrychwch ar i'ch tylwyth gadw dydd yr Arglwydd yn sanctaidd, *Exod.* xx. 9. *Lef.* xxiii. 3. O bydd'wch mor ystig at orchwylion Duw y dydd hwnnw, ac a fyddwch at eich gorchwylion eich hunain ar hyd yr wythnos, diammau y cewch weled budd ysprydol wrth hynny.

5. Bob borau a hwyr, yn barchedig ac yn ddifrifol offrymmer i'r Arglwydd, aberth gweddi a moliant, gan yr holl deulu ynghyd, *Sal.* xcii. 1, 2. *Exod.* xxx. 7, 8. *Luc.* i. 9, 10. Gwae'r teuluoedd ni alwant ar enw Duw, tywelltir digofaint arnynt, *Jer.* x. 25. O deuluoedd di weddi pa fodd y sefwch yn y farn ofnadwy? Llid Duw a dywelltir arnoch fel tân, a'ch calonnau creigiau a fwrir i lawr ganddo, *Nahum* i. 6. gofynir i ni weddio beunydd a phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr yspryd *Eph.* vi. 18. Y mae pechodau a diffygion teuluoedd, a llwyr y dylei fod gweddiau teuluaidd hefyd, a diolchgarwch teuluaidd am eu trugareddau. Na ddywedwch nad ydych yn cael amser i hyn, canys er mwyn hyn yr ydych yn cael eich holl amser gan Dduw. Ac na ddywedwch fod eich gwaith bydol i'ch rhwystro, canys nid oes waith reitiach na gwaith Duw, ac iechydwriaeth eneidiau, ac y mae gweddi deilwng yn dwyn bendith ar bob peth a drinioch, *Jer.* xxix. 12, 13. 2 *Sam.* vii. 29. na ddywedwch y chwaith na 'oes gennych ddoniau cymmwys i weddio: arfer yr ychydig dalent sydd gennyt, a Duw a'i chwanega. Y mae help i'w gael i chwi gyfiau, gall y teulu gwan uno ag un a fyddo cryfach. Da gan Dduw fod pobl yn cyd-weddio, *Iago.* v. 16. hyd, xix, *Act.* xii. 5, 10, 12. 2 *Cor.* i. 11.

6. Ceisiwch hefyd gan bob un o'ch teulu weddio beunydd ar ei ben ei hun. A mynnwch wybod a fyddant yn gwneuthur felly. A phwy bynnag o honynt a fyddo arfod os yn y ddyledswydd hon, ceisiwch eu helpu, gan roddi iddynt ffurf o weddi hyd oni allont adrodd eu deisyfiadau eu hunain. Cyfarwyddwch hwynt pa fodd y dylent weddio, canys felly y gwnai Crist ac Ioan fedyddiwr i'r rhai a'u canlynent, *Luc* xi. 1, 2.

7. Arferwch gateceisio eich plant a'ch gweinidogion, o'r lleiaf

un waith yn yr wythnos. Darllenwch, *Deut.* vi. 7, 8, 9. a'r iv. 9, 10, a'r xi. 18, 19, 20. ac y mae'r ysgrythur yn rhoddi ca-lonnid ynom i'r gwaith, gan ddywedyd, *Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy a hi. Diar.* xxii. 6.

Os bydd eich teulwyth yn anhydrin i ddysgu, arferwch eich awdurdod arnynt yn y peth hynny, yn gystal ac mewn pethau eraill; ie yn hytrach yn fwy o lawer am y peth yn perthyn i ogoniant Duw, a lles eu heneidiau hwynt. Chwi a'u gelwch hwynt at fwyd, ac a'u cymhellwch hwynt at eich gwaith, ac oni ddylech [illegible] daer i'w gosod ar waith Duw? Ac o bydd neb o honynt a deall-dwrieth gwan, byddwch ddiwyd ac ymgeleus wrthynt hyd oni ddysgont wyddorion eglur crefydd, gystal a dirgelwch eich crefydd. Os mynnwch weled crefydd yn ffynnu, ac annuwioldeb yn lleihau, byddwch ddiwyd yn y dyledswyddau hyn. Bydded eich calonau a'ch teuluoedd yn demlau i'r Duw-byw, lle caffo efe ei addoli beunydd, fel y byddoch fendigedig ac yn fendith i'ch tylwythau. Amen.

---

# H Y M N.

I.

TORRI wnes fy addunedau, fil o weithiau digon gwir;
Pechu yn erbyn rhad drugaredd, ac yn erbyn cariad pur;
Etto gras y nef sy'n para, i fy olrhain yma a thraw;
Er fy mod i'n gwyro beunydd, ar y dde a'r aswy-law.

II.

Ffarwel! Aiphtiaid cas gelynol, tu ag adre' rwyf' yn myn'd;
Blinais a'r eich ofer leisiau, af a'r ôl fy anwyl ffrynd;
Tros y bryniau i fynu yn union, trwy'r cymylau i dy fy nhad
Ac mi roddaf ffarwel bellach, i fy ngenedigol wlad.

III.

Clwyfau'r Iesu yw fy Iechyd; Craig yr oesoedd yw fy sail;
Pa'm yr ofnaf hen Elynion, sy'n fy nghuro i ris y dail;
Safodd Iesu ar Galfaria, yn wyneb lluoedd uffern fawr;
Fe saif etto o blaid ei bobl, sy'n milwrio ar y Llawr.

D I W E D D.